# Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 14 Mawrth 2007

## Cynigion a gyflwynwyd ar 6 Mawrth 2007

**NDM3540**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu’n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

1. Yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i Brif Weinidog Cymru.

2. Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff. Nid oes unrhyw swyddogaethau yn ôl y gyfraith nad oes modd eu dirprwyo yn y fath fodd.

Gellir gweld Deddf Lles Anifeiliaid 2006 trwy ymweld â’r ddolen ganlynol:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/20060045.htm

**NDM3542**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 31:

1. Yn croesawu’r argymhelliad yn y cynnig a gyflwynwyd gan Tamsin Dunwoody [NNDM 3280] ac a gytunwyd arno mewn cyfarfod llawn ar 14 Tachwedd 2006.

2. Yn cytuno ar y ffordd ymlaen a gynigir yn yr adroddiad dichonoldeb a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mawrth 2007, sy’n cynnwys arolygu a rheoleiddio triniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir gan ddeintyddion y mae eu deintyddfeydd yn cael eu hariannu gan y GIG, a'r bwriad o fwrw ymlaen â deddfwriaeth eilaidd ategol.

3. Yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwrw ymlaen â’r cynnig.

## Cynigion a gyflwynwyd ar 7 Mawrth 2007

**Dadl Fer**

**NDM3545 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** DORE, gwellhad i ddyslecsia?

**NDM3544 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007; a

b). Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007; a

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007.

**NDM356 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 6.6:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei adolygiad o Wasanaethau Canser ar gyfer Pobl Cymru, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 07 Chwefror 2007.